



# cta

community transport  
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL

## Gair i Gall



# Dadansoddiad o'r bylchau ac asesiad o anghenion

## Cenhadaeth a Gwerthoedd



**Bydd y canllawiau hyn o gymorth i:** ddarparwyr cludiant cymunedol er mwyn sicrhau y gallant ddangos yn eglur i gyllidwyr bod angen gweithredu eu cynnig.

## Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:

Dogfen ddefnyddiol sy'n rhoi tystiolaeth o'r angen am eich prosiect y gellir ei defnyddio gyda nifer o gyllidwyr gwahanol megis y Loteri ac ymddiriedolaethau elusennol. ✓

## Beth fydd ei angen arnoch chi:

Cymysgedd o ddulliau ymgynghori ✓

Ystod eang o gysylltiadau gyda 'rhanddeiliaid' (pobl sydd â "rhanddaliad" yn eich mudiad e.e. gwirfoddolwyr, buddiolwyr, ymddiriedolwyr, pobl rydych chi'n gweithio gyda nhw, partneriaid ehangach ✓

Amser i wirio unrhyw wybodaeth berthnasol ac i ymchwilio ✓

## Sut byddwch chi'n ei wneud:

- Mae dadansoddiad o'r bylchau neu asesiad o anghenion effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau y bydd eich prosiect neu wasanaethu arfaethedig yn bodloni gwir anghenion buddiolwyr eich mudiad. Mae'n bwysig hefyd eich bod yn gallu rhoi tystiolaeth i gyrff cyllido o waith asesu anghenion trylwyr ac o ansawdd da. **Os byddwch chi'n cysylltu â chyllidwyr i geisio cael arian ar gyfer prosiect penodol, byddan nhw'n gofyn 'sut ydych chi'n gwybod bod angen hyn?'**

- **Mae cyllidwyr eisiau i'w buddsoddiad gyflawni'r effaith fwyaf posib** ac yn aml, mae hyn yn golygu targedu ardaloedd neu unigolion sydd â'r angen mwyaf, gyda gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o allu diwallu eu hanghenion penodol. Felly mae cynnal dadansoddiad o'r bylchau a llunio dogfen asesu anghenion yn gallu bod yn arf defnyddiol ar gyfer eich ymdrechion i godi arian.
- Mae'r broses fel arfer yn cynnwys **cymysgedd o ddulliau o ymgynghori â buddiolwyr a rhanddeiliaid** ac adolygiad desg o unrhyw ymchwil perthnasol. Gallai cyllidwyr presennol, mudiadau eraill sy'n gweithio yn yr ardal, neu'r Cyngor Lleol fod ymhlith y rhanddeiliaid.
- Gallech chi ddechrau trwy gynnal adolygiad mewnol o ymgynghoriadau / unrhyw adolygiadau ac adroddiadau am brosiectau sydd gan eich mudiad eisoes. **Chwiliwch am unrhyw dystiolaeth sydd gennych o anghenion ac ewch ymlaen o'r fan honno.**
- Gwiriwch yr ystadegau perthnasol ar gyfer eich ardal, megis ffigurau poblogaeth y *Cyfrifiad*, nifer yr aelwydydd sydd heb fynediad at gerbyd, demograffeg gyffredinol megis cyfran y boblogaeth sy'n hŷn, pobl sydd â chyflyrau hirdymor ac ati.
- Edrychwch ar **Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** ar gyfer eich ardal chi - a yw'r ardal yn uchel ar y raddfa amddifadedd ar gyfer unrhyw ddangosyddion penodol megis 'Incwm' a 'Mynediad at wasanaethau'? Gall unrhyw wybodaeth o'r fath helpu i **gryfhau eich dadansoddiad o anghenion**. Neu gallech edrych ar yr asesiad lleol o anghenion iechyd neu gynlluniau lles y Cyngor i gael rhagor o ddata am y boblogaeth leol.
- Meddyliwch am unrhyw heriau sy'n wynebu'ch cymuned. **Gall 'cymuned' gyfeirio at grŵp o bobl** megis pobl hŷn neu bobl sy'n ceisio gwaith, ardal megis Rhywdre neu leoliad penodol o fewn Rhywdre megis ystâd dai sydd â chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus gwael, neu gymuned sy'n seiliedig ar ddiddordeb.
- **Cadwch gofnod:** (er enghraifft, dyddiadur neu daenlen Excel) o bwy rydych chi wedi siarad â nhw (unigolion a grwpiau / mudiadau) gyda'r dyddiad, y dulliau a ddefnyddiwyd (er enghraifft, galwad ffôn, wyneb-yn-wyneb, wedi'i godi mewn cyfarfod, arolwg), ac unrhyw adborth a gafwyd.
- **Datblygwch eich cynllun gweithredu:** gyda phwy mae angen i chi gysylltu i gael gwybodaeth bellach ac adborth defnyddiol am fylchau mewn gwasanaethau yn yr ardal? Sut byddwch chi'n cysylltu â nhw? Erbyn pryd?
- Lluniwch a chynhaliwch arolygon, grwpiau ffocws, a chyfweliadau er mwyn dechrau cryfhau eich sylfaen tystiolaeth. Gallech chi gyfwrdd â buddiolwyr presennol, gyrwyr, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr, a chynnal gweithdy gyda chynrychiolwyr o nifer o wahanol fudiadau a sefydliadau er mwyn canfod **pa gymorth ychwanegol all fod ei angen sydd ddim ar gael yn yr ardal ar hyn o bryd.**

- Cynhaliwch adolygiad desg o gyhoeddiadau a strategaethau perthnasol a chanfyddiadau ymchwil sydd wedi'u cyhoeddi. A oes unrhyw adroddiadau Cymru-gyfan neu ar gyfer y Deyrnas Unedig y gallech chi gyfeirio atynt yn eich adolygiad er mwyn **cryfhau unrhyw ganfyddiadau o'ch ardal eich hun?**
- **Ystyriwch sut rydych chi am gyflwyno a rhannu'r canfyddiadau:** gellir cyflwyno'r canlyniadau ar ffurf adroddiad asesu anghenion a / neu eu hymgorffori yn y ceisiadau am gyllid. Cofiwch roi adborth i'r bobl sydd wedi cymryd rhan yn y broses a rhoi gwybod iddyn nhw am unrhyw gamau dilynol rydych chi'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad.
- Ewch dros eich dadansoddiad o'r bylchau / asesiad o anghenion bob hyn a hyn a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.

---

## Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

**Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn [ctauk.org/cciw-cymraeg](http://ctauk.org/cciw-cymraeg).**